

# HYFFORDDIANT AR-LEIN I GYNGHORWYR

Y COD YMDDYGIAD AR GYFER  
CYNGHORWYR CYMUNED A THREF

# BETH SYDD AR GAEL?

Paratowyd y deunyddiau hyfforddiant ar-lein i'ch cynorthwyo chi i ddatblygu eich corff o wybodaeth fel Cynghorydd.

Mae'r deunyddiau'n trafod 7 maes penodol, ac mae'r Cod Ymddygiad yn un ohonynt. Mae'r deunyddiau eraill yn ymwneud â Chynefino, y Cyngor fel Cyflogydd, Deall y Gyfraith, Cyllid Llywodraeth Leol, Iechyd a Diogelwch ac Amrywiaeth a Chynhwysiant.

# RHOI CYCHWYN ARNI

Mae'r modiwl hwn yn trafod y Cod Ymddygiad ac mae'n mynd trwy'r elfennau allweddol canlynol:-

- ▶ Yr egwyddorion sylfaenol
- ▶ Cydymffurfio â'r Cod
- ▶ Beth ddylai ac na ddylai Cynghorwyr ei wneud
- ▶ Buddiannau Personol a Rhagfarnus
- ▶ Rhagbenderfyniadaeth a Rhagdueddiad
- ▶ Ymdrin ag enghreifftiau o dorri'r Cod

Mae hefyd yn cynnwys dolen i recordiad fideo 5 munud o grynodeb o brif elfennau'r Cod o safbwynt Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

# PWRPAS Y MODIWL

Er mwyn eich cefnogi i:-

- ▶ Fod yn gyfarwydd ag egwyddorion y Cod Ymddygiad
- ▶ Cael gwell dealltwriaeth o sut i gyflawni eich cyfrifoldebau fel Cynghorydd

# FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn cyflwyno fframwaith ar gyfer safonau ymddygiad uchel gan aelodau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n cynnwys:-

- ▶ Casgliad o 10 egwyddor ymddygiad cyffredinol
- ▶ Model God Ymddygiad statudol
- ▶ Pwyllgorau Safonau Lleol i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel o fewn y prif gyngor a chynghorau cymuned/tref yn eu hardal
- ▶ Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu swyddogion monitro yn ymchwilio enghreifftiau honedig o dorri'r Cod
- ▶ Pwyllgorau Safonau Lleol a Phanel Dyfarnu Cymru yn dyfarnu ar enghreifftiau honedig o dorri'r Cod

# CAMAU CYNTAF

Fe gofiwch ichi lofnodi datganiad derbyn y swydd wedi ichi ddod yn Gynghorydd. Mae hon yn ddogfen gyfreithiol bwysig ac mae'n cynnwys addewid i gadw at y Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i'ch Cyngor fabwysiadu'r Cod a dylai eich Clerc roi copi ichi.

Cadw at y Cod yw un o'r ymrwymïadau pwysicaf a wnewch fel Cynghorydd – mae'n helpu eich diogelu chi a Chynghorwyr eraill trwy sicrhau eich bod oll yn cynnal safonau priodol.

# EGWYDDORION SY'N SAIL I'R COD

- ▶ Anhunanoldeb
- ▶ Gonestrwydd
- ▶ Integriti a Phriodoldeb
- ▶ Dyletswydd i Gadw at y Gyfraith
- ▶ Stiwardiaeth
- ▶ Gwrthrychedd wrth Wneud Penderfyniadau
- ▶ Cydraddoldeb a Pharch
- ▶ Bod yn Agored
- ▶ Atebolrwydd
- ▶ Arweinyddiaeth

# ANHUNANOLDEB

## DYLECH:

- ▶ Weithredu'n llwyr er budd y cyhoedd
- ▶ Beidio byth â sicrhau mantais bersonol neu osgoi anfantais ichi'ch hun, cyfeillion, teulu neu gymdeithion
- ▶ Beidio byth â dwyn anfri arnoch chi'ch hun na'r Cyngor



# GONESTRWYDD

Dylech ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n berthnasol i'ch dyletswyddau cyhoeddus a datrys unrhyw faterion allai olygu eich bod yn gweithredu'n groes i'r budd cyhoeddus. Mae gwahaniaeth rhwng buddiannau personol a rhagfarnus, ac ymdrinnir â hynny yn ddiweddarach yn y modiwl hwn.

# INTEGRITI A PHRIODOLDEB

Rhaid ichi bob tro osgoi rhoi eich hun mewn sefyllfa lle y gellir amau eich integriti. Gallai hynny ddigwydd oherwydd ymrwymïadau ariannol neu o fathau eraill i fudiadau neu sefydliadau, neu unigolion, allai geisio dylanwadu arnoch.

# DYLETSWYDD I GADW AT Y GYFRAITH

Mae'n rhaid ichi bob tro weithredu i gadw at y gyfraith. Bydd ymddygiad anonest a thwyllodrus yn dwyn anfri ar eich Cyngor, ac felly hefyd ymddygiad sy'n arwain at euogfarn droseddol, yn enwedig felly os yw'n cynnwys ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn eich bywyd preifat.

# STIWARDIAETH

Mae'n rhaid ichi ofalu eich bod yn defnyddio adnoddau eich Cyngor yn gyfreithlon a darbodus. Fel Cynghorydd mae gennych ddyletswydd allweddol i ofalu amdanynt, ac i helpu sicrhau y ceir gwerth gorau a bod gennych amgylchedd cadarn o reolaeth ariannol ar waith a'i fod yn cael ei adolygu'n fanwl.

# GWRTHYCHEDD WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU

Rhaid ichi bob tro wneud penderfyniadau yn ôl yr hyn sydd orau, gan roi ystyriaeth i'r cyngor a roddwyd gan y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol ynghyd wrth gwrs â safbwyntiau eich cyd Gynghorwyr. Mae disgwyl ichi roi sylw dyladwy i'r cyngor a'r wybodaeth sydd ar gael ichi wrth lunio eich barn ar unrhyw faterion y mae angen i'r Cyngor benderfynu arnynt.

# CYDRADDOLDEB A PHARCH

Mae'n rhaid ichi bob tro hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, waeth beth yw eu hil, rhywedd, anabledd, crefydd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'n rhaid ichi barchu eraill a rhoi iddynt yr un ystyriaeth ag y byddech yn disgwyl ei chael eich hunan.

# BOD YN AGORED

Mae'n rhaid ichi fod yn agored am eich holl weithredoedd, a rhai'r Cyngor, onid yw'r cyfryw ddatgeliad yn cael ei gyfyngu gan y gyfraith neu os yw'n fater y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn un cyfrinachol.

# ATEBOLRWYDD

Rydych yn atebol i'r etholwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol am y ffordd y cyflawnwch eich dyletswyddau fel Cynghorydd. Mae'n rhaid ichi fod yn barod i fod yn destun craffu gan eraill a chraffu arnoch chi'ch hun os yn briodol.



# ARWEINYDDIAETH

Rydych yn arweinydd cymunedol ac mae'n rhaid ichi feithrin hyder cyhoeddus yn eich rôl a rôl y Cyngor. Mae eich Cyngor yn gyflogydd, ac fel aelod mae'n rhaid ichi barchu amhleidioldeb ac integriti'r staff a pheidio defnyddio unrhyw arferion annerbyniol fel bwlio neu aflonyddu gweithwyr.

# BETH MAE'N RHAID I GYNGHORWYR EI WNEUD

- ▶ Hyrwyddo cydraddoldeb
- ▶ Trin eraill â pharch
- ▶ Darparu mynediad at wybodaeth onid oes cyfyngiadau yn berthnasol
- ▶ Gwneud penderfyniadau yn ôl haeddiant y sefyllfa a rhoi ystyriaeth i gyngor swyddogion
- ▶ Cadw at y rheolau ar dreuliau

# BETH NA DDYLECH EI WNEUD

- ▶ Gweithredu mewn ffordd fyddai'n dwyn anfri ar eich swydd fel Cyngorydd neu eich Cyngor
- ▶ Derbyn rhoddion answyddogol
- ▶ Datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol
- ▶ Defnyddio adnoddau'r Cyngor yn amhriodol
- ▶ Gwneud cwynion blinderus neu faleisus

# BETH YW BUDDIANNAU PERSONOL?

‘Pan all budd proffesiynol neu bersonol y tu allan i’ch rôl wrthdaro gyda’ch dyletswydd fel Cynghorydd’

Mewn sefyllfaoedd o’r fath, mae’n rhaid ichi ddatgan budd personol cyn gynted ag y dewch yn ymwybodol y gallech chi, neu bobl yn agos atoch, elwa fwy na phobl eraill yn y gymuned o ganlyniad i’r mater sydd dan sylw e.e. eich cyflogydd, teulu a buddiannau busnes neu swyddi o reolaeth sydd gennych mewn mudiadau neu sefydliadau eraill.

# BUDDIANNAU RHAGFARNUS

Mae budd personol yn mynd yn un rhagfarnus 'os yw aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau yn rhesymol yn ystyried eich budd personol yn un mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu eich barn ar y budd cyhoeddus.'

Os oes gennych fudd rhagfarnus, mae'n rhaid ichi, wedi datgan eich budd personol yn y mater, adael yr ystafell (neu unrhyw leoliad arall y cynhelir y cyfarfod ynddo gan gynnwys, er enghraifft, lleoliad cyfarfod safle).

Mae rhai eithriadau yn berthnasol – disgrifir y rhain yn y canllawiau ar gyfer y Cod Ymddygiad a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd ar gael trwy ddefnyddio'r we-ddolen :

<https://www.ombudsman.wales/wp-content/uploads/2018/03/Code-of-Conduct-Community-Councils-August-2016-ENGLISH.pdf>

# DATGAN BUDDIANNAU

- ▶ Gofynnwch i'ch Clerc am arweiniad – gofynnir ichi lenwi ffurflen buddiannau
- ▶ Bron bob tro bydd rhaid ichi beidio cymryd rhan yn y drafodaeth oni bai y cawsoch oddefeb arbennig gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir neu os oes eithriad yn berthnasol (Darllenwch y canllawiau ar y Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y cyfeiriwyd atynt ar y sleid flaenorol)
- ▶ Cynhwysir eich budd yng nghofnodion y cyfarfod ac yn y gofrestr o fuddiannau aelodau a gedwir gan y Clerc ac a gyhoeddir ar wefan y Cyngor

# RHAGBENDERFYNIADAETH/ RHAGDUEDDIAD

Mae meddwl agored yn ased defnyddiol iawn ar gyfer unrhyw agwedd o waith y Cyngor. Dylech osgoi:-

- ▶ **Rhagbenderfyniadaeth** - yw pan mae gan Gyngorydd feddwl caeëdig ac yn methu llunio barn gytbwys a phriodol ar fater y mae angen gwneud penderfyniad yn ei gylch. Os cewch eich hun mewn sefyllfa o'r fath mae'n rhaid ichi beidio cymryd rhan yn y mater dan sylw
- ▶ **Rhagdueddiad** - Ystyr hyn yw pan mae Cyngorydd wedi datgan barn benodol ymlaen llaw (e.e. ymgyrch etholiad) ond heb fod wedi gwneud ei feddwl/meddwl i fyny o ran sut y bydd yn pleidleisio ar fater nac yn rhoi lle i bobl feddwl ei fod/bod wedi gwneud hynny. Mewn sefyllfaoedd o'r fath gallwch gymryd rhan yn y mater dan sylw

# CYDYMFFURFIO Â'R COD

Mae cyngor a chefnogaeth berthnasol ar gael oddi wrth:-

- ▶ Glerc y Cyngor
- ▶ Y Swyddog Monitro
- ▶ Y Pwyllgor Safonau
- ▶ Canllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



# YMDRIN AG ENGHREIFFTIAU O DORRI'R COD

- ▶ Gellir cael cyngor am roi gwybod am enghreifftiau o dorri'r Cod oddi wrth Swyddog Monitro'r Cyngor Sir
- ▶ Gellir cyflwyno cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- ▶ Mae'r Pwyllgor Safonau yn derbyn adroddiadau oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pan mae ymchwiliadau wedi datgelu y cafodd y Cod ei dorri, a gall gyflwyno cosbau yn cynnwys ataliad dros dro hyd at 6 mis
- ▶ Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyflwyno'r mater i sylw Panel Dyfarnu Cymru, a gallant hwy gyflwyno cosb anghymwysiad hyd at 5 mlynedd

# ANERCHIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae anerchiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gael ar YOUTUBE trwy ddefnyddio'r we-ddolen ganlynol:

<https://www.youtube.com/watch?v=Cm4escGiBgk>

DVD 5 munud yw hwn, ac rydym yn argymhell y dylech ei wyllo.

# BETH MAE'R COD YN EI DDIOGELU

- ▶ Eich etholwyr
- ▶ Eich Cyngor
- ▶ A CHI

Eich cyfrifoldeb personol chi yw darllen, deall a chydymffurfio â'r Cod. Os oes unrhyw beth yn aneglur, gofynnwch am gyngor.

# BETH AM BROFI EICH HUN

Ceisiwch ateb y canlynol :-

- 1) Enwch bump o'r egwyddorion sy'n sail i'r Cod Ymddygiad.
- 2) Esboniwch beth yw ystyr budd personol.
- 3) Esboniwch pryd mae budd personol yn mynd yn un rhagfarnus.
- 4) Beth ddylech chi wneud pan mae gennych fudd?

# BETH NESAF?

Gan fod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o'r Cod Ymddygiad erbyn hyn, awgrymir yn gryf y dylech ofyn i'ch Cyngor roi'r cyfle ichi fynd ar gwrs hyfforddiant ar y pwnc yma.

Mae'r hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru yn rhyngweithiol ac mae'n archwilio holl elfennau'r Cod yn y manylder y byddech yn ei ddisgwyl gan eich corff cynrychioliadol. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle ichi ymgysylltu â Chynghorwyr er mwyn eich galluogi i rannu profiadau a dysgu oddi wrth eich grŵp cymheiriaid.